MEDI A HYDREF 2024

# YSGOL DYFFRYN DULAS

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

## PLANT NEWYDD

Braf yw estyn croeso cynnes i bawb yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau'r haf. Croesawn yn arbennig ein dysgwyr newydd sef Pegi, Evie, Charlie, Arna a Verity i'r Meithrin; Ivy, Margo a Noah i flwyddyn Derbyn; Chloe i flwyddyn 1 a Maxwell i flwyddyn 2. Llwyr obeithiwn y byddant yn ymgartrefu ac yn mwynhau pob eiliad o'u taith drwy'r ysgol.




## CYNGOR YSGOL




## SWYDDOGION IAU DIOGELWCH Y FFORDD A'R IAITH GYMRAEG

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu hethol i fod ar y Cyngor Ysgol eleni
Blwyddyn 3 – Elain Puw
Blwyddyn 4 – Marc Cullier Milner
Blwyddyn 5 – Otis Jones
Blwyddyn 6 – Zahra El Mliji a Idris Summerfield

Hefyd, i Dylan Evans a Malo Worthington sydd yn Swyddogion Diogelwch y Ffordd, a Grace Hussein ein Swyddog yr Iaith Gymraeg.



**MEDI A HYDREF 2024**

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## SIOE CORRIS







Bu disgyblion yr ysgol yn cystadlu yn gwahanol adrannau Celf a Chrefft yn Sioe Corris yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Efa a Myrtle am ennill y darian am y nifer fwyaf o bwyntiau.
Cafodd yr afalau o'r ardd ail yn yr adran Llysiau a Ffrwythau hefyd.



## CYMORTH CYNTAF



Daeth Sophie Jones o Ambiwlans St John's atom yn ddiweddar i ddysgu'r plant am beth i'w wneud mawn argyfwng, sgiliau byddai'n siŵr o achub bywyd rhywun rhyw ddydd efallai. Dysgwyd am sut i roi rhywun sy'n anymwybodol yn yr ystum adferol, beth i wneud os oes rhywun yn tagu a methu cael eu gwynt a hefyd cael dysgu sut i wneud CPR. Er roedd y plant yn cael llawer o hwyl, roeddent yn dysgu sgiliau pwysig iawn.



# TRAETH ABERDYFI



Dydd Mawrth Medi 24ain aeth disgyblion Dosbarth 7-11 oed gydag Ysgol Pennal am drip i draeth Aberdyfi fel rhan o'n gwaith ar y môr. Yno roedd Dawn o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru i'n dysgu ni am bob math o fywyd môr, ond yn bennaf am 'bwrs y fôr forwyn' neu câs wyau siarcod. Ar ôl edrych ar wahanol rai, aethom i chwilio am rai ar hyd y traeth a llwyddom i ddod o hyd i un ac yna roedd rhaid edych yn fanwl i geisio darganfod pa fath o greadur y môr yr oedd yn perthyn iddo. Ar ôl cinio roedd yn rhaid torchi llewys a mynd ati i dacluso'r traeth, er pa mor hyfryd yw traeth Aberdyfi, roedd pawb yn synnu i weld cymaint o sbwriel o bob math yno ac yn niweidio bywyd gwyllt. Buodd pawb wrthi'n ddygn iawn i sicrhau bod y traeth yn fwy diogel i greaduriaid o bob math ac wedi cael diwrnod gwerth chweil.





**MEDI A HYDREF 2024**

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## BORE COFFI MACMILLAN

Rydym ni wedi bod yn brysur yn addurno cacennau sbwng ar gyfer ein bore coffi Macmillan. Bu y Cyngor Ysgol yn brysur yn paratoi'r neuadd ar ein cyfer a wnaethom fwynhau cael paned a bwyta'r cacennau gyda'r staff. Codwyd £35 i'r elusen.



## DIWRNOD IECHYD MEDDWL




Yn ystod Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd cynhaliwyd gweithgareddau yn ystod y dydd oedd yn ymwneud a Iechyd Meddwl.




## DISGO CALAN GAEAF

Trefnodd Cyngor Ysgol ddisgo Calan Gaeaf ar ddiwrnod olaf cyn hanner tymor. Daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo fyny a cawsom brynhawn hwyliog gyda disgo a gemau yn y Neuadd.

## EGINIAD CYMRU

Mae'n braf iawn i groesawu Jess a Simon yn ôl i'r ysgol i gynnal gweithdai iechyd meddwl gyda Eginiad Cymru. Mae'r plant wrth eu bodd yn cael ymlacio drwy wneud ioga, deall pwysigrwydd anadlu a gwrando ar straeon am gamgymeriadau campus a dyfalbarhad. Mae'r sesiynau yn dysgu sgiliau hanfodol i ddelio gyda gwahanol emosiynau a phrofiadau bywyd ac mae'r plant wrth eu bodd.



MEDI A HYDREF 2024

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## GWASANAETH DIOLCHGARWCH



Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch diwedd mis Hydref. Ein thema eleni oedd Sbwriel a'r mor. Cafwyd casgliad o ffrwythau ar gyfer preswylwyr Cartref Dyfi yn Machynlleth.





## DIWRNOD SHWMAE SU'MAI




Ar Ddiwrnod Shwmae Su'mae daeth plant a staff yr ysgol yn gwisgo dillad Cymru neu dillad coch i ddathlu'r diwrnod. Cawsom llawer o hwyl yn siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a trafod pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg.

## PEL DROED YR URDD

Aeth tim o Flwyddyn 5 a 6 Ffederasiwn Ysgol Pennal ac Ysgol Dyffryn Dulas i gymryd rhan yn Nhwrnament pel droed yr Urdd yn y Bala eleni. Er mai criw bach sydd yn y ddwy ysgol, roedd pob un wedi ymdrechu ac wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

